# Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

**Tabl Rheoli Dogfen**

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | **Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd Athrofa Padarn Sant** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):** | Gareth Longden, Cofrestrydd. |
| **Rhif y fersiwn:** | Fersiwn 1 |
| **Statws y ddogfen:** | Cymeradwywyd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 22 Awst 2019 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Pwyllgor Busnes Padarn Sant, Cyngor Padarn Sant |
| **Dyddiad rhoi mewn grym:** | Awst 2019 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2022 |
| **Y fersiwn a ddisodlir:** | Fersiwn gyntaf |
| **Dogfennau cysylltiedig:** | Gweler Adran 2 |

**Hanes y ddogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Nodiadau ar adolygiadau |
|---|---|---|---|
| | | | |

# Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd Athrofa Padarn Sant

## 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys y Polisi
2. Fframwaith y Polisi
3. Cyflwyniad
4. Egwyddorion y Polisi
5. Gwneud apêl am Farc Modiwl
6. Hysbysu am Ganlyniad yr apêl
7. Gwneud Apêl i Gyrff Allanol
8. Monitro Prosesau Apeliadau
9. Rheoliadau Eraill
10. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu
11. Cyhoeddi'r Polisi


## 2. Fframwaith y Polisi

Datblygwyd y polisi hwn yn unol â'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth:

- Llawlyfrau Rhaglenni Athrofa Padarn Sant
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant
- Llawlyfr Rheoliadau Academaidd Prifysgol Caerdydd
- Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant
- Polisi Marcio a Safoni Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn
- Polisi Diogelu Data Athrofa Padarn Sant
- Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch Awdurdod Asesu Ansawdd y DU – Cyngor ac Arweiniad: Pryderon, cwynion ac apeliadau.

## 3. Cyflwyniad

**3.1** Nod y broses Apeliadau Academaidd yw rhoi trefn i chi ar gyfer apelio yn erbyn yr hyn yr ystyriwch chi sy'n weithdrefn annheg wrth asesu.

**3.2** Diffinnir apêl academaidd fel *"Cais i adolygu penderfyniad a wnaed gan gorff academaidd sydd yn gyfrifol am gwneud penderfyniadau ar gynnydd dysgwr, asesiadau a dyfarniad."*

**3.3** Ni chewch chi apelio ar sail eich bod yn anghytuno â barn academaidd y marciwr yn unig.

## 4. Egwyddorion y Polisi

**4.1** Ein nod yw ymateb i unrhyw ymholiad neu apêl yn gyfrinachol, yn deg ac yn brydlon yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Athrofa. Bydd staff yn ymdrechu i fod yn gwrtais wrth yr achwynydd, gan ymateb yn gadarnhaol a chynnig datrysiadau adeiladol lle bo modd.

**4.2** Rheolir yr holl apeliadau mewn modd sensitif gan roi sylw dyledus i faterion diogelu data. Er ein bod yn deall y gall achwynwyr ddymuno i rai agweddau ar eu tystiolaeth (e.e. datganiad tyst neu dystiolaeth feddygol) gael eu cadw'n gyfrinachol, ni fydd modd gwneud hyn bob tro heb atal ymchwiliad trylwyr o'r ffeithiau. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr Athrofa'n trafod gyda'r achwynydd y ffordd orau o fynd ati i gyflwyno tystiolaeth.

**4.3** Cynigir cefnogaeth i'r rhai sy'n rhan o'r ymchwiliad (parti) gan eu Tiwtor Personol. Gall parti ddewis cyfaill cefnogol i fynd gydag ef neu i'w gynrychioli mewn unrhyw gyfarfod hefyd. Rhaid i'r cydymaith hwnnw fod yn rhywun sy'n gwbl annibynnol ar yr amgylchiadau a achosodd y cyfarfod ac felly ni all fod yn rhywun sy'n rhoi cymorth bugeiliol iddo yn ystod y broses.

**4.4** Cedwir cofnod manwl o'r holl ymchwiliadau, apeliadau neu adolygiadau ffurfiol.

**4.5** Ni ddylai'r gwaith o brosesu'r apêl ffurfiol ac unrhyw adolygiad dilynol gymryd dim mwy na 30 diwrnod calendr. Rhaid i'r dysgwr fodloni unrhyw ddyddiadau terfyn ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

**4.6** Gall apeliadau sy'n cynnwys mwy nag un mater, mewn rhai achosion olygu y bydd yn rhaid datrys un mater cyn mynd ymlaen i'r llall. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol trafod gyda'r achwynydd pa ffordd yw'r un orau i ddatrys y sefyllfa gyfan yn foddhaol.

**4.7** Hysbysir yr achwynydd yn ysgrifenedig bob amser ynghylch canlyniad unrhyw ymchwiliad neu apêl ynghyd â'r rhesymau a roddwyd am y penderfyniad a wnaed. Hysbysir yr achwynydd ar yr un pryd ynghylch unrhyw brosesau apêl pellach a all fod yn agored iddynt eu cymryd.

**4.8** Bydd unrhyw adolygiad yn cael gwrandawiad gan rywun nad oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad gwreiddiol a bydd yn digwydd o fewn yr amserlen a nodwyd. Fe'ch hysbysir os rhagwelir y bydd unrhyw oedi na ellir ei osgoi.

**4.9** Ni fydd unrhyw un yn dioddef anfantais o wneud apêl.

**4.10** Gellir tynnu'r apêl yn ôl unrhyw bryd yn ddiamod ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Rhaid hysbysu'r Athrofa yn ysgrifenedig.

## 5. Gwneud Apêl am Farc Modiwl

### 5.1 Y Sail ar gyfer Gwneud Apêl

Gallwch apelio ar y sail ganlynol yn unig:

**5.1.1** Bod gwall rhifyddeg neu ffeithiol arall yn y canlyniadau a gyhoeddwyd.

**5.1.2** Bod y Bwrdd Arholi heb gymryd y camau priodol i weithredu penderfyniad Amgylchiadau Esgusodol neu fod y Brifysgol yn anymwybodol o amgylchiadau esgusodol a effeithiodd yn andwyol ar berfformiad y dysgwr (a bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau diymwad pam nad oedd y Brifysgol wedi cael eu hysbysu ynghylch yr amgylchiadau hynny ar adeg briodol).

**5.1.3** Bod diffygion neu anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu mewn cyngor ysgrifenedig cysylltiedig a oedd o'r fath natur fel bod posibilrwydd rhesymol y gallai'r canlyniad fod yn wahanol pe na baent wedi digwydd.

**5.1.4** Ni ellir cyflwyno apeliadau a wneir ar unrhyw sail ac eithrio'r rhai a restrir uchod (yn cynnwys y rhai sy'n cwestiynu dyfarniad academaidd yr arholwyr).

### 5.2 Rhesymau na ellir eu Cyflwyno ar gyfer Apêl

**5.2.1** Ni ellir apelio yn erbyn marc modiwl dim ond am eich bod yn anghytuno â'r marc a ddyfarnwyd (*sail academaidd*).

**5.2.2** Ni ellir apelio ar y sail nad ydych yn ymwybodol o'r rheoliadau asesu cyhoeddedig (e.e. nifer y geiriau, dyddiad cyflwyno terfynol, ac ati).

**5.2.3** Os ydych chi'n anghytuno â'r canlyniadau y daeth y pwyllgor iddynt ar ôl ystyried eich datganiad o amgylchiadau esgusodol.

### 5.3 Proses ar gyfer gwneud apêl am Farc

Os credwch fod eich apêl yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf derbyniol, gallwch wneud apêl trwy gysylltu yn gyntaf â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Athrofa Padarn Sant.

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau neu rywun a enwebir ganddo yn eich hysbysu ynghylch y ffurflenni cywir ac yn rhoi gwybod i chi am y broses o wneud apêl i'r brifysgol ddilysu briodol.

- Dylid cyflwyno apeliadau i Brifysgol Caerdydd o fewn 28 diwrnod calendr o gael eich hysbysu am y marc.
- Dylid cyflwyno apeliadau i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant o fewn 15 diwrnod gwaith o gael eich hysbysu am y marc.

Ystyrir apeliadau a ddaw i law ar ôl y dyddiadau terfyn uchod fel rhai hwyr, ac ni ellir eu hystyried oni bai bod tystiolaeth annibynnol yn dangos rhesymau diymwad pam na chyflwynwyd yr apêl mewn pryd.

## 6. Hysbysu am Ganlyniad yr Apêl

Bydd y brifysgol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r achwynydd am ganlyniad yr apêl.

Ar ôl derbyn Llythyr Canlyniad yr Apêl, os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r penderfyniad neu'r datrysiad, gall fod sail i gyflwyno apêl i'r brifysgol i'r penderfyniad gael ei adolygu.

## 7. Gwneud Apêl i Gyrff Allanol

**7.1** Fel rheol, dim ond os yw prifysgol heb ddilyn ei gweithdrefn ei hun yn briodol neu heb ymdrin â'r apêl yn deg y gellir gwneud apêl i gorff allanol.

**7.2** Dim ond ar ôl defnyddio'r holl weithdrefnau apêl ac adolygu mewnol y gellir gwneud apêl i gorff allanol.

### 7.3 Gwneud Apêl i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol:

Pan fo dysgwr wedi cyflawni'r holl weithdrefnau mewnol sy'n ymwneud ag Apêl Academaidd, ac os yw'n parhau i deimlo'n anhapus gyda'r modd yr ymdriniwyd â'r apêl, mae modd cwyno wrth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) trwy gysylltu â nhw yn: www.oiahe.org.uk. Sefydlwyd yr OIA o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 i ddarparu cynllun cwyno annibynnol i ddysgwyr. Mae'n ofynnol i holl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a Lloegr gydymffurfio â'r cynllun hwn sy'n rhad ac am ddim i ddysgwyr. Fodd bynnag ni all yr OIA ystyried unrhyw gwynion gan ddysgwyr na chawsant eu datrys mewn perthynas ag Apeliadau Academaidd *tan y bydd* y gweithdrefnau apeliadau ac adolygu mewnol wedi dod i ben.

Mae'r cwynion y bydd OIA yn eu hystyried yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhestr hon:

- Apeliadau Academaidd
- Amgylchiadau Esgusodol
- Addysgu a Chyfleusterau
- Llety
- Goruchwyliaeth ymchwil
- Lles
- Gwahaniaethu (ond gweler * isod)
- Bwlio ac aflonyddu
- Lleoliadau
- Anghysondebau gweithdrefnol
- Ymarfer annheg
- Materion disgyblu – yn cynnwys llên-ladrad

* Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu nid yw'r OIA yn gweithredu fel llys barn. Nid yw'n ymchwilio neu'n dod i ddyfarniad cyfreithiol fel y bydd llys barn. Fodd bynnag, mae'n briodol i'r OIA droi at y gyfraith am arweiniad ar wahaniaethu i lunio barn ar ymarfer da ac i benderfynu a yw'r darparwr wedi gweithredu'n deg.

Ni all yr OIA ystyried cwynion/apeliadau yn ymwneud â:

- Derbyniadau
- Dyfarniad academaidd
- Materion sydd eisoes neu sydd wedi bod yn destun achos Tribiwnlys Llys oni bai bod yr achos wedi'i 'atal' neu ei ohirio.

Er mwyn gwneud Apêl Academaidd i'r OIA, rhaid i chi wneud y canlynol:

Gofyn am Lythyr yn dynodi Diwedd Gweithdrefnau oddi wrth y Brifysgol i'w gyflwyno gyda'r apêl i'r OIA. Rhaid gofyn am hwn o fewn mis i'r apêl gael ei hategu. Os nad yw yr apêl wedi'i hategu, anfonir y llythyr cyflawni gweithdrefnau yn awtomatig o fewn 28 diwrnod o gwblhau'r prosesau mewnol.

## 8. Monitro Prosesau Apeliadau

Trafodir materion a chanlyniadau unrhyw apêl yn yr Athrofa i fonitro a sicrhau effeithiolrwydd yr apêl, ansawdd y profiad dysgu, a mater hyder yn y prosesau apêl.

## 9. Rheoliadau Eraill

**9.1** Dyfernir marciau yn unol â Pholisi Marcio a Safoni'r Athrofa sydd ar gael ar wefan Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk a'r VLE (Amgylchedd Dysgu Rhithwir) a pholisïau asesu'r prifysgolion sy'n dyfarnu.

**9.2** Ystyrir apeliadau academaidd yn ddiduedd. Mae'r Athrofa'n ymdrechu i sicrhau nad yw dysgwyr yn destun gwahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Athrofa ei hun. Credwn fod amrywiaeth yn gyfraniad cadarnhaol i'r profiad dysgu ym Mhadarn Sant.

**9.3** Cedwir cofnodion o unrhyw broses apêl yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gweler y manylion yn y Polisi Diogelu Data ar wefan yr Athrofa: www.stpadarns.ac.uk a'r VLE. Yn unol â thelerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gan ddysgwyr hawl i gopi o'r holl ddata personol sydd gennym ni amdanyn nhw. Dylid cyflwyno pob cais i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

## 10. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyffredinol gyfrifol am y polisi apeliadau academaidd, yn cynnwys ei gymeradwyo a'i adolygu.

## 11. Cyhoeddi'r Polisi

**11.1** Gwelir y ddogfen hon ar wefan Athrofa Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk ac ym maes y dysgwr ar y VLE.

**11.2** Gwneir pob ymdrech i ymateb i unrhyw gais am ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

**11.3** Bydd y polisi hwn yn rhan o weithdrefn sefydlu staff a dysgwyr.